

Trwy e-bost

19^{eg} Ionawr 2022

Annwyl Jenny,

Parthed: Gwahoddiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer sesiwn graffu flynyddol

Diolch am eich gwahoddiad i'r sesiwn graffu flynyddol ar fy ngwaith.

Roedd eich llythyr yn egluro y byddai'r sesiwn yn canolbwyntio ar y canlynol: "craffu ar eich adroddiad blynyddol, adroddiad diweddar ar ôl-osod, eich gwaith ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol, a chynigion ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod."

Fel cyflwyniad, rwy'n cynnwys yn y llythyr hwn ddolenni i'r Crynodebau Adroddiad ar gyfer fy ['Cartrefi sy'n Addas i'r Dyfodol: Yr Her Ôl-ffitio'](#), ['Dyfodol Addas i Gymru, incwm sylfaenol i bawb'](#) yn ôl y gofyn. Byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad ar Wythnos Waith Fyrrach ar y 14^{eg} o Chwefror.

Roeddwn i'n meddwl y byddai gennych chi ddi-ddordeb hefyd yn adroddiad cryno fy adroddiad ['Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd ar gyfer gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig'](#) a gynhyrchwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd; a fy [Sgiliau ac \(Ail\)Hyfforddiant ar gyfer Crynodeb Gweithredol Adferiad Lewyrchus, Gwyrdd a Chyfartal](#).

Gallwch ddod o hyd i fersiynau llawn yr adroddiadau hyn ar fy ngwefan.

Atodaf dudalennau 9 i 13 fy adroddiad blynyddol sy'n cynnwys crynodeb defnyddiol o'r cyflawniadau hyd yma a'r newidiadau ar lawr gwlad ledled Cymru diolch i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roeddwn am dynnu sylw at y capasiti hwnnw ac mae lefel fy adnoddau yn fater ar gyfer cyflawni fy mhwerau a'm dyletswyddau fel y cydnabuwyd gan gyrff cyhoeddus a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) ar y pryd yn eu hadroddiad ar weithredu'r Ddeddf. Mae hon yn her arbennig i mi arfer pŵer yn hytrach na chyflawni fy nyletswyddau craidd. Eleni, wrth inni symud tuag at gyllidebu ar sail angen, rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am fwy o adnoddau i'm helpu i gynnig mwy o gymorth i gyrff cyhoeddus a'r rheini a all helpu i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf ac i roi argymhellion PAC ar waith.

Os na chytunir ar y cynnydd hwn, bydd fy nghyllid sylfaenol yn golygu y bydd yn rhaid imi wrthod hyd yn oed mwy o geisiadau am gyngor a chymorth a thorri'n ôl bron yn gyfan gwbl ar y cyngor a roddaf ar bolisi wrth imi ganolbwyntio fy adnoddau cyfyngedig ar fy nyletswyddau craidd i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gyffredinol a monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant yn cael eu cyflawni.

Gwanethoch hefyd ofyn am drosolwg o'm gwaith ers cynhyrchu fy adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r cyfnod blynyddol hyd at Ebrill 2021, a fydd yn destun fy adroddiad blynyddol nesaf, a gallaf roi blas i chi o'm gwaith / cyflawniadau diweddaraf ers Ebrill 2021:

Rhaglen Lywodraethu:

- Rydym wedi cyhoeddi Maniffesto ar gyfer y Dyfodol i helpu llunio Rhaglen Lywodraethu newydd.
- Rydym wedi gwneud sylwadau ar gyhoeddi'r rhaglen ac amcanion newydd LIC.
- Rydym wedi monitro ac asesu'r cynnydd o ran gweithredu fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Maniffesto ar gyfer y Dyfodol.
- Rwyf wedi asesu bod 51% o'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'u halinio'n uniongyrchol ag argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Polisi cenedlaethol gan gynnwys fy meysydd ffocws:

- Rydym wedi dylanwadu a chynghori ar ddatblygiad strategaeth drafndiaeth genedlaethol newydd ac ar yr Adolygiad Ffyrdd.
- Rydym wedi gosod cynllun ar gyfer ariannu'r [her ôl-osod tai](#) y cyfeirir ato yn un o'r blaenoriaethau yn [rhaglen waith Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd](#) ar gyfer y 6^{ed} tymor.
- Rydym wedi darparu cyngor sydd wedi cyfrannu at ddatgan argyfwng natur yng Nghymru, targedau datgarboneiddio newydd ac wedi croesawu sefydlu gweinidogaeth hinsawdd newydd.
- Rydym wedi dylanwadu ar adolygiad o TGAU yng Nghymru, gan adlewyrchu ein her bod angen ailgynllunio'r system arholiadau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thueddiadau hirdymor.
- Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar [Anghydraddoldeb yn y dyfodol](#) a grybwyllir uchod.
- Rydym wedi darparu ymatebion statudol i'r dangosyddion llesiant a'r cerrig milltir a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Rydym wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Sero Net.
- Rydym wedi comisiynu a chyhoeddi adroddiad gan y felin drafod flaenllaw Ymreolaeth ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol a sut y gallai weithio yng nghyd-destun Cymru. Mae'n cynnwys arolwg barn sy'n dangos y byddai 69% o bobl Cymru yn cefnogi treialu UBI. Mae'r adroddiad yn amlinellu model cychwynnol ar gyfer UBI a fyddai'n haneru tlodi yng Nghymru pe bai'n cael ei gyflwyno'n genedlaethol. Gallai ail fodel mwy cynhwysfawr ddileu tlodi bron yn gyfan gwbl.
- Fe wnaethom gomisiynu ymchwil ar ddull wythnos waith byrrach yng Nghymru a byddwn yn ei gyhoeddi yng nghanol mis Chwefror.

Cyrff cyhoeddus:

- Rydym wedi dechrau gweithredu ar argymhellion gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd drwy greu tîm cyfan i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer pob corff cyhoeddus yn fy nhîm, gan adeiladu ar fy mherthynas â chyrff cyhoeddus.
- Rhwng Ebrill 2021 ac Ionawr 2022, rydym wedi derbyn cyfanswm o 324 o geisiadau am gymorth. Daeth 105 o'r rheini gan gyrff cyhoeddus, 50 ohonynt wedi'u cwblhau a 28 arall ar y gweill ar hyn o bryd.
 - Ers mis Mai 2018, rydym wedi derbyn 372 (o 17/1/22) o geisiadau am gymorth (llawer ohonynt yn sylweddol ac yn barhaus) gan gyrff cyhoeddus a 715 yn fwy gan sefydliadau eraill (mae hyn yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol yn y Ddeddf, y byd academaidd, sefydliadau'r sector gwirfoddol, y sector preifat a mwy).



- Buom yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i gynnal cyfres o weithdai gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio dyfodol allweddol a allai fod yn ysgogi newid yn y tymor hir, a sut y gall technegau meddwl am y dyfodol eu helpu i werthuso yr hyn y gallant ei olygu ar gyfer eu hasesiadau llesiant.
- Rydym wedi dechrau adolygu asesiadau llesiant o bob rhan o Gymru a darparu cyngor ar y dull gweithredu ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cyhoeddasom yr adroddiad a'r argymhellion ar gyfer ein hadolygiad adran 20 cyntaf ar gaffael, a byddwn yn cychwyn ar ail adolygiad statudol cyn bo hir. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ein hargymhelliad ar gyfer Canolfan Ragoriaeth i drawsnewid caffael yng Nghymru. Rydym wedi ein siomi gan eu hamharodrwydd i wneud hynny hyd yn hyn.

Academi Arweinyddiaeth:

- Gan weithio gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer, rydym wedi recriwtio 35 o arweinwyr ifanc newydd gwych i fod yn hyrwyddwyr ledled Cymru o fewn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n datblygu hyn hyd yn oed ymhellach drwy ariannu *Young Co Creators* gyda fymhartneriaeth gyda Democracy Box. Mae'r garfan hyd yn oed yn fwy amrywiol na'r llynedd.
- Ymunodd dros 30 o brif weithredwyr y sector cyhoeddus a gwirfoddol i gael eu mentora gan ein harweinwyr ifanc ac rwy'n falch bod gennym ni rai Prif Weithredwyr yn y sector preifat eleni hefyd.
- Rydym wedi creu rhwydwaith cyn-fyfyrwyr ar gyfer Graddedigion ein Hacademi i'w helpu i ymuno â byrddau cyngori cyrff cyhoeddus neu ymgysylltu â siarad cyhoeddus i hyrwyddo cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ac ar lefel fyd-eang, gan gynnwys yn Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, Iwerddon-Cymru Rhyngweinidogol fforwm, COP26, Cynulliad Amgylchedd Ieuencid y Cenhedloedd Unedig. Mae pedwar corff cyhoeddus wedi gofyn i ymgysylltu â'r academi i lywio eu mentrau allgymorth eu hunain ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Hyrwyddo Rhyngwladol:

- Rydym wedi llwyddo yn ein heiriolaeth i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i fabwysiadu ymagwedd cenedlaethau'r dyfodol o fewn System y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys creu Cenhadaeth Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ac Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Genedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym wedi cefnogi datblygiad a chynnydd deddfwriaeth ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn Senedd y DU a Llywodraeth yr Alban. Rwy'n rhoi cyngor i Weinyddiaeth Dramor Gweriniaeth Iwerddon sydd hefyd yn ystyried mabwysiadu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni ysbrydoli Gweinidog Tramor Iwerddon yn arbennig gyda'n Hacademi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol yn fforwm rhyngweinidogol Iwerddon-Cymru yn 2021.
- Rydym wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ar y Ddeddf gyda Swyddfa Prif Weinidog y Ffindir, Canghellor yr Almaen a Senedd Ewrop.
- Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein cytundeb partneriaeth ail flwyddyn gyda thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i gefnogi Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Ddeddf i'w rhanddeiliaid cenedlaethol ac i gynulleidfa ryngwladol.



- Rydym wedi codi proffil Cymru a'r Ddeddf mewn cannoedd o gynadleddau a digwyddiadau gan gynnwys yn COP26, ac Uwchgyhadledd Expo'r Byd. O'r Ffindir i India, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar drafodaethau byd-eang.

Cyfathrebu a hyrwyddo yng Nghymru a thu hwnt:

- Rydym wedi gweithio gyda mwy o bobl, rhwydweithiau a sefydliadau i amlygu safbwyntiau gwahanol, safbwyntiau a phrofiadau o fewn ein gwaith – gan gefnogi'r mudiad dros newid ledled Cymru i adeiladu'r Gymru a garem. Er enghraifft, WeALL Cymru, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Siarter Cartrefi, Cyswllt Amgylchedd Cymru, UBILabs Cymru, Hinsawdd Cymru, Race Alliance Wales, Anabledd Cymru, Chwarae Teg a RhCM Cymru.
- Rydym wedi ymddangos gerbron dau o bwyllgorau'r Senedd (30 Medi 2021 – Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; 29 Tachwedd 2021 – y Pwyllgor Deisebau), ac rydym wedi gweld ein gwaith yn cael ei adlewyrchu yn eu hargymhellion, yn enwedig ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym wedi sicrhau cannoedd o ddarnau o sylw yn y cyfryngau o bob rhan o'r byd ac wedi cynyddu ein proffil cyfryngau cymdeithasol yn sylweddol.

Sector preifat:

- Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o'r sector preifat, gan gynnwys yr holl brif rwydweithiau busnes, ynghyd â Busnes Cymru, i ddeall sut i ysgogi busnes ymhellach i alinio eu gweithredoedd â'r Ddeddf. Rydym wedi nodi bylchau allweddol yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at fusnes ar y ddeddf yn ein hadroddiad ar y rhaglen lywodraethu.

Cerdded y Sgwrs - Hyrwyddo'r egwyddor gynaliadwy yn ein gwaith ein hunain:

- Rydym wedi parhau i weithio gyda phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys ffotograffwyr ac awduron, o bob rhan o Gymru a chyda fy mhartneriaeth Bardd Preswyl, perfformiodd Taylor Edmonds 'When I Speak of Bravery', ei cherdd yn dathlu Betty Campbell - prifathrawes Ddu cyntaf Cymru - adeg dadorchuddio ei cherflun yng Nghaerdydd. Rwyf wedi parhau â'n partneriaethau cyflogedig rheolaidd sy'n ein cefnogi i gydweithio ymhellach â lleisiau newydd a lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol, eleni trwy weithgareddau fel Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, yr ymgyrch dros Fis Incwm Sylfaenol Cyffredinol a Hanes Pobl Dduon.
- Rydym wedi cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantiedig ym mis Ebrill 2021 lle byddai ymgeiswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n gwneud cais am unrhyw un o'n swyddi yn cael cyfweliad pe baent yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd.
- Rydym wedi cynyddu amrywiaeth ein gweithlu, gan gyflogi 16% o gydweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac wedi lansio ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ein hunain.
- Rydym wedi diweddarau ein polisiau caffael fel y gallwn ystyried gwerth am arian ynghyd â buddion ehangach i 4 dimensiwn llesiant a dysgu mwy gan ein darpar gyflenwyr sut maent yn cyfrannu at y nodau llesiant.

- Rydym wedi parhau i gynnwys ystod eang o randdeiliaid a phrofiad byw yn ein holl waith polisi. Mae cyfranogiad traws-sector wedi llywio'r ffocws cychwynol a'n hargymhellion, er enghraifft llywio ein ffocws ar adferiad a arweinir gan ofal a'r blaenoriaethau ar gyfer y sector diwylliant.
 - Rydym wedi ychwanegu adnoddau cyfranogiad a chydaddoldeb ychwanegol at ein tîm eleni gan ein galluogi i gryfhau ein perthynas ag ystod eang o sefydliadau trydydd sector a chymunedol, grwpiau nas clywir yn aml, busnesau a rhanddeiliaid rhyngwladol.
 - Mae ein cynllun peilot o'r model Pwyntiau Cyswllt ar gyfer rheoli ein perthnasoedd â Rhanddeiliaid Cyhoeddus wedi cryfhau ein hymagwedd at gynnwys pobl ymhellach.
 - Mae ein Hacademi Arwain y Dyfodol a phartneriaeth gyda Democracy Box yn adeiladu ar ein hymwneud â phobl ifanc drwy gydol ein gwaith.

Edrychaf ymlaen at y sesiwn dystiolaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Sophie



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru